Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Carreg Hirfaen**

**Ysgol Carreg Hirfaen**
**Cwm-ann i Harford**
**Cwm-ann**
**Llanbedr Pont Steffan**
**SA48 8ET**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 15 Mai 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Carreg Hirfaen wedi'i leoli yn Ysgol Carreg Hirfaen. Mae'r sefydliad wedi'i gofrestru i ddarparu gofal dydd llawn ar gyfer hyd at 19 o blant. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig sesiynau bore rhwng 8.30am a 12.00 canol dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a sesiynau prynhawn rhwng 1.00pm a 3.15pm ar ddydd Llun a dydd Mawrth. Shan Davies a Hannah Madge-Davies yw'r unigolion cyfrifol ar ran y sefydliad. Hannah Jones yw'r person â chyfrifoldeb.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Gwelsom fod y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Carreg Hirfaen yn hapus, wedi setlo ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael gofal gan staff profiadol a rhai staff hirsefydlog sy'n gwybod anghenion y plant. Mae'r amgylchedd yn agored ac mae dewis da o adnoddau. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn effeithiol ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y ddogfennaeth yn gywir ac yn drefnus.

### 2. Gwelliannau

Mae'r arweinwyr wedi cofrestru'r sefydliad ar gynllun cyn-ysgol iach cenedlaethol, ac mae'r sefydliad hefyd yn rhan o gynllun brwsio dannedd cenedlaethol.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygu, ac arwain a rheoli. Mae'r rhain wedi'u nodi yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gwrandewir ar y plant ac maent yn gwneud penderfyniadau y rhan fwyaf o'r amser. Maent yn hapus, wedi setlo ac yn mwynhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwarae a ddewiswyd yn rhydd a chwarae wedi'i arwain gan oedolion. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n annog eu datblygiad.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn maent am ei wneud. Mae'r staff yn gwrando arnynt, ac maent yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn hyderus.

Gwelsom y plant yn cyrraedd ac aethant i chwarae yn hyderus, gan ddewis y gweithgareddau roeddent am gymryd rhan ynddynt. Yn ystod sesiwn dawnsio, nid oedd pob plentyn am gymryd rhan. Gofynnodd y staff iddynt ymuno, ond gwnaethant ysgwyd eu pennau a sefyll wrth yr ochr, yn gwylio.  Cydnabuwyd hyn gan y staff a gadawyd i'r plant wylio'r sesiwn. Roedd y plant yn gallu dewis pa liw plât, cwpan, cyllyll a ffyrc roeddent am eu defnyddio ar gyfer eu byrbryd. Dywedodd y staff wrthym mai'r plant wnaeth lunio'r fwydlen byrbrydau eu hunain drwy drafod pa fyrbrydau roeddent yn hoff ohonynt yn ystod amser cylch.

Caiff lleisiau'r plant eu gwerthfawrogi yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae ganddynt gydberthynas glos â'r staff, sy'n eu hadnabod nhw i gyd yn dda.

Gwelsom y plant yn rhedeg i mewn i'r gwasanaeth yn hapus. Gwnaeth rhai o'r plant fynd at aelodau o'r staff am gwtsh drwy gydol y sesiwn. Gwnaethant aros yn agos at y staff cyfarwydd, am eu bod yn ansicr ohonom, ond gydag amser, aethant i chwarae'n hapus. Roeddent yn awyddus i ni ymuno yn eu chwarae a gwnaethant ofyn yn hyderus beth roeddem yn ei wneud yno.

Mae hoffter mawr rhwng y plant a'r staff ac maent yn teimlo'n ddiogel.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn cymryd eu tro ac yn cydweithredu yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan y staff ac yn chwarae gyda'u ffrindiau'n hapus.

Gwelsom y plant yn chwarae gyda'i gilydd yn yr awyr agored. Roedd grŵp o blant yn rhannu cyfarpar yn y twb tywod, gan gymryd eu tro i lenwi poteli. Roedd angen cymorth ar rai gan y staff ac roedd angen eu hatgoffa i rannu eitemau a bod yn garedig i'w gilydd.

Gwnaeth un plentyn a oedd ar y sgwter ddweud yn swta wrth blentyn arall ‘get out of the way’. Cafodd ei atgoffa i ofyn am gwrtais a dweud ‘excuse me’. Aeth y plant i res fel trên wrth iddynt aros i fynd i'r awyr agored i chwarae. Pan oedd hi'n amser dawnsio, aeth plentyn i chwarae gyda'r troli siopa. Gwnaeth plentyn arall ei atgoffa'n gyflym ‘put that away now, it’s dancing time’.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn cael cymorth ar adegau.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn llawn diddordeb ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Maent yn cynnal eu diddordeb am gyfnod priodol o amser ac yn symud yn rhydd ac yn ddiogel rhwng gweithgareddau.

Chwarddodd y plant yn gyffrous wrth iddynt redeg o gwmpas yn yr awyr agored ac roedd rhai yn reidio'r sgwteri a'r beiciau. Roedd dau blentyn yn chwerthin yn wyllt ac yn mynd ar ôl ei gilydd. Roedd y plant yn amlwg yn gyfarwydd â geiriau ac ystumiau'r caneuon roeddent yn eu canu wrth iddynt wrando ar gyfarwyddiadau yn dda ac ymuno. Roedd grŵp o blant yn cydweithio ac yn esgus trwsio eu beiciau a'u sgwteri yn y garej. Gwnaeth y 'mecanig' droi'r beic drosodd a defnyddio offer o'r blwch offer i 'drwsio' olwyn beic.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a'u dysgu'n fawr iawn.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus, wedi'u cymell ac yn datblygu eu sgiliau annibynnol.

Gwelsom y plant yn ymddwyn yn annibynnol wrth ddefnyddio'r toiled a golchi a sychu eu dwylo. Yn ystod amser cylch, aeth plentyn allan i'r awyr agored i weld sut roedd y tywydd a rhoddodd gwybod i eraill drwy'r radio dwyffordd. Roedd y plant yn aros i gael cyfarwyddyd gan y staff cyn iddynt ddechrau brwsio eu dannedd. Ar adeg amser byrbryd, aeth helpwr y dydd i nôl y byrbryd, helpodd i agor poteli o laeth a dosbarthu'r cracers. Arllwysodd y plant eu llaeth eu hunain i gwpan tra bod eraill yn helpu eu hunain i ddŵr o'r tanc dŵr. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn taenu menyn ar eu cracers yn annibynnol, ond roedd angen cymorth ar rai. Dywedodd rhai o'r rhieni wrthym fod eu plant wedi gwneud cynnydd sylweddol yn eu datblygiad ers dod i'r gwasanaeth.

Mae'r plant yn dysgu'n dda, yn datblygu ac yn dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda ac yn darparu gofal sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn gadarnhaol gan gynnig digon o glod.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y staff ffeil gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau. Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac mae gan y staff ddealltwriaeth dda o gadw'r plant yn ddiogel.

Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn cael byrbryd ac ar ôl mynd i'r toiled. Roedd y staff yn sicrhau bod y byrddau'n cael eu glanhau â glanweithydd cyn ac ar ôl cael byrbryd. Gwnaethom drafod gweithdrefnau amddiffyn plant gyda'r staff ac roedd rhai o'u hymatebion yn dangos nad oeddent yn gwbl glir o'u cyfrifoldebau. Ymatebodd aelodau eraill o'r staff yn hyderus i senarios a roddwyd a'r gweithdrefnau y byddent yn eu cymryd petai unrhyw bryderon diogelu ganddynt. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn brwsio eu dannedd bob dydd, ac roedd y gwasanaeth wedi ennill gwobr aur am gynllun brwsio dannedd cenedlaethol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddechrau cynllun cyn-ysgol iach cenedlaethol.

Ar y cyfan, mae'r staff yn hyderus yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio bob amser. Maent yn annog y plant i gymryd eu tro a rhannu â'i gilydd. Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol.

Roedd y staff yn canmol y plant yn aml yn ystod eu chwarae, er enghraifft; “well done you, you're eating so well” ac “oh I am loving what you’re doing there!” Gwelsom achlysuron lle roedd ymddygiad annerbyniol y plant a gwrthdaro posibl yn cael eu hosgoi wrth i'r staff dynnu eu sylw a thrafod beth sy'n gywir a beth sy'n anghywir. Er enghraifft, roedd un plentyn yn defnyddio cyllell blastig i brocio plentyn arall. Cafodd ei atgoffa'n dawel sut i ddefnyddio cyllell a sut mae eraill yn teimlo pan fyddant yn cael eu procio â chyllyll. Plygodd yr aelod o staff i lefel y plentyn i esbonio hyn iddo. Clywsom y staff yn atgoffa'r plant i ddweud ‘diolch’ pan roddwyd eu byrbryd iddynt a gwnaethant fodelu hyn drwy ddiolch i'r plant pan wnaethant ddychwelyd eu platiau a'u cwpanau.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol a chyson.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Roedd y staff yn gwybod ac yn deall anghenion y plant ac yn cynllunio'r cyfleoedd chwarae a dysgu yn dilyn arsylwadau o anghenion y plant.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda a gwnaethant ddweud wrthym am eu hoffterau a'u dewisiadau. Roeddent yn gallu dweud wrthym ba mor dda roedd y plant wedi setlo, a'r rhai nad oeddent wedi bod yn y gwasanaeth am amser hir ac a oedd yn ymgartrefu o hyd. Roeddent yn nodi sgiliau'r plant drwy arsylwadau a'u hannog i'w datblygu ymhellach. Roedd y staff yn cwblhau proffiliau unigol y cyfnod sylfaen ar gyfer pob plentyn. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn cynllunio'n wythnosol, ar sail galluoedd y plant. Roeddent yn cynllunio gyda'r plant ac yn gwrando ar yr hyn roeddent ei eisiau. Roedd pob aelod o'r staff yn siarad Cymraeg gyda'r plant. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn ofalgar, yn gefnogol a'i bod yn hawdd mynd atynt. Gwnaethant hefyd ddweud hyd yn oed ar ôl mynychu'r gwasanaeth am amser byr, fod datblygiad eu plant wedi gwella'n sylweddol.

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn effeithiol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ystafell mewn ysgol. Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i chwarae'n ddiogel gydag amrywiaeth dda o adnoddau. Mae'r amgylchedd wedi'i osod dan do i fodloni meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Mae ardal awyr agored ddynodedig ar gyfer y plant ar ochr yr adeilad, a oedd hefyd yn cynnwys meysydd dysgu.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn sicrhau eu bod yn nodi ac yn dileu risgiau cymaint â phosibl.

Roedd y drws i mewn i'r adeilad dan glo ac roedd yn rhai i aelod o'r staff ganiatáu i ymwelwyr â'r gwasanaeth ddod i mewn a gofynnir iddynt lofnodi llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Roeddem yn gallu gweld bod y llyfr ymwelwyr yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Roedd y staff yn rheoli mynediad i bob ystafell a ddefnyddir gan y gwasanaeth drwy ddefnyddio ffobiau diogelwch electronig. Roeddent yn cwblhau asesiadau risg yn rheolaidd ac yn eu diwygio pan fo angen ar gyfer ardaloedd dan do ac awyr agored. Roedd y gwasanaeth wedi cael sgôr o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cafodd y cyfarpar trydan i gyd eu profi ym mis Gorffennaf 2018. Cynhelir ymarferion tân gyda'r ysgol, er eu bod wedi cael eu cynnal cyn i'r gwasanaeth ddechrau yn y bore. Felly nid oedd arweinwyr y gwasanaeth yn eu cynnal yn rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn effeithiol gan amlaf.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r brif ystafell, lle mae'r gwasanaeth wedi'i leoli, yn groesawgar ac yn agored gyda llawer o waith y plant ac arddangosfeydd lliwgar ar y waliau. Mae'r cynllun yn hyrwyddo annibyniaeth ac mae wedi'i gynnal i safon dda.

Roedd amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae yn yr ystafell yn ogystal â mannau i fwyta ac ardaloedd ar gyfer adegau tawel a oedd yn addas i'r plant. Roedd yr arweinwyr wedi trefnu byrddau a chadeiriau i ddarparu ardal gymdeithasol ar gyfer amser byrbryd ac ardaloedd gyda chlustogau lle y gallai'r plant dreulio adegau tawel. Roedd gwaith y plant i'w weld drwy'r ystafell ac roedd llawer o arddangosfeydd gydag iaith fathemategol. Roedd ardal chwarae fawr a diogel ar ochr yr adeilad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r plant dan do ac yn yr awyr agored.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a theganau, sy'n lân ac o ansawdd da. Maent yn briodol ar gyfer oedran y plant ac mae'n hawdd i'r plant gael gafael arnynt.

Roedd amrywiaeth o adnoddau a theganau o ansawdd da ar gael i'r plant a oedd yn addas at y diben. Roedd enghreifftiau o'r adnoddau a oedd ar gael yn cynnwys adnoddau synhwyraidd a naturiol megis hambyrddau tywod a dŵr, toes chwarae, ceir a garej, detholiad o lyfrau Cymraeg, blociau, ffigurau anifeiliaid fferm a dinosoriaid, teganau amryliw, dillad gwisgo i fyny, doliau a phramiau, crud, bwrdd smwddio, chwarae byd bach a thŷ bach twt. Roedd y plant hefyd yn mwynhau ardal chwarae rôl mewn siop, cornel fathemateg, offerynnau cerdd a bwrdd gwyn rhyngweithiol mawr.  Roedd yr arweinwyr wedi darparu dodrefn o faint sy'n addas i blant er mwyn galluogi'r plant i eistedd wrth fyrddau'n annibynnol a chael gafael ar deganau a chyfarpar.  Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a theganau, sy'n lân ac o ansawdd da. Maent yn briodol ar gyfer oedran y plant ac mae'n hawdd i'r plant gael gafael arnynt.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da yn gyson.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn drefnus ac yn effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau gofynnol a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith ac mae'r staff i gyd yn gyfarwydd â nhw. Mae systemau pwrpasol ar waith ar gyfer adolygu'r gwasanaeth, datblygiad y staff a gwneud gwelliannau.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Roedd y gymhareb oedolion i blant yn unol â'r safonau gofynnol cenedlaethol gan amlaf, ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol yn yr adeilad. Fodd bynnag, nid oedd y gymhareb yn gywir am gyfnod byr pan aeth y staff â'r plant allan yn unigol i weithio ar raglen. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r plant ac roeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth gywir. Roedd yr holl gofnodion o ddamweiniau wedi'u llofnodi gan y staff a'r rhieni. Roedd gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac roeddent yn gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn llawn. Dywedodd y staff wrthym fod yr arweinwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau.

Mae'r arweinyddiaeth yn y gwasanaeth hwn yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol ac yn ystyried barn y plant, y staff, y rhieni a'r pwyllgor.

Roeddent wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer y flwyddyn bresennol ac roedd yr adroddiad yn nodi gweithgareddau, teithiau, adnoddau newydd a brynwyd, adborth gan y rhieni a'r plant a chynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roedd camau gweithredu'n cynnwys datblygu'r ardal awyr agored er mwyn iddo gynnwys mwy o adnoddau naturiol a gardd synhwyraidd.

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i sicrhau bod adolygiadau rheolaidd o'r gwasanaeth a'u bod yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod lefelau staffio'r gwasanaeth yn gywir a bod amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael i'r nifer o blant sy'n bresennol. Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith.

Edrychom ar ffeiliau'r staff a nodwyd eu bod yn cynnwys yr holl ddogfennaeth gywir gan gynnwys tystysgrifau hyfforddiant a geirdaon. Roedd yr arweinwyr wedi gwirio pob gwiriad y

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol a gwelsom y dogfennau hyn yn ffeiliau'r staff. Roedd gan yr arweinwyr gynlluniau wrth gefn ar waith i gwmpasu absenoldebau staff, a gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn hyblyg iawn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus iawn yn eu rolau, yn cael cymorth da iawn a'u bod yn falch o fod yn rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn arbennig o dda.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr gydberthnasau da â'r rhieni / gofalwr, yr ysgol leol a'r gymuned.

Gwnaethom siarad â'r rhieni a ddywedodd wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth yn fawr iawn. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu plentyn ac yn cael gwybod sut roedd eu plant yn dod ymlaen drwy adborth dyddiol gan y staff. Roedd gan yr arweinwyr gysylltiadau da â'r ysgol, ac roedd athro'r cyfnod sylfaen yn dod i ymweld â'r plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Byddai'r plant hefyd yn ymweld â'r ystafell ddosbarth cyn symud. Mae'r plant hefyd yn cael eu gwahodd i ddiwrnod mabolgampau'r ysgol. Mae'r arweinwyr yn trefnu digwyddiadau codi arian, megis Bingo a the-parti Nadolig. Mae'r staff yn trefnu ymweliadau â'r cartref gofal lleol er mwyn i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r bobl hŷn sy'n byw yno. Roedd teithiau eraill yn cynnwys mynd i'r traeth lleol a'r ardd fotaneg.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni, y gymuned leol a'r ysgol leol yn effeithiol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Gwnaethom roi gwybod i'r darparwr am achos o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â chyflogaeth y staff gan nad oeddent yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd. Yn dilyn yr arolygiad, rhoddodd yr unigolyn cyfrifol wybod i AGC fod y staff yn cael sesiynau goruchwylio.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell bod yr arweinwyr yn sicrhau'r canlynol:

- Dylid cadw at y gymhareb staff i blant bob amser;
- bod pob aelod o'r staff yn hyderus yn eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau i ddiogelu plant;
- bod ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd, a
- bod pob aelod o'r staff yn cyflawni'r hyfforddiant 'Dyletswydd Atal'.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Cynhaliodd arolygydd un ymweliad â'r gwasanaeth ar 12 Mawrth 2019, a wnaeth bara am gyfanswm o bedair awr. Rhoddwyd adborth dros y ffôn ar 26 Mawrth 2019.

- Gwnaethom weld sampl o ddogfennaeth a pholisïau yn ystod yr arolygiad;
- gwnaethom arsylwi ar arfer rhwng y staff a'r plant;
- gwnaethom archwilio'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored;
- gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb, y plant, y rhieni a'r aelodau o'r staff.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Hannah Madge-Davies**<br>**Shan Davies** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Hannah Jones** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-4 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am – 12.00 canol dydd**<br>**Dydd Llun a dydd Mawrth, 1.00pm – 3.15pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **31 Ionawr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **11 Mawrth 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |